# Tynnu sylw at ChatGPT

Mae ChatGPT yn fath o AI cynhyrchiol. Gall adnoddau AI cynhyrchiol greu cynnwys newydd, gwreiddiol yn seiliedig ar gyfarwyddiadau a roddir gan ddefnyddwyr. Gall defnyddwyr ddefnyddio ChatGPT i gynhyrchu cynnwys, megis gofyn iddo ysgrifennu stori fer neu draethawd, creu cod cyfrifiadur, neu gynorthwyo gyda thasg y mae defnyddiwr yn cymryd rhan ynddi.

## Risgiau posibl

### Gall fod yn anghywir

Pan fydd defnyddiwr yn cyflwyno cais, mae'r dechnoleg AI yn casglu gwybodaeth o ddeunyddiau ar-lein presennol ac yn ei rhoi at ei gilydd mewn fformat darllenadwy. Nid yw ChatGPT yn gwybod beth yw'r gwahaniaeth rhwng ffaith a ffuglen – mae'n rhannu'r wybodaeth y mae wedi'i dysgu. Mae hyn yn golygu y gall defnyddwyr fod yn agored i wybodaeth ffug neu gamarweiniol.

### Dim hidlyddion cynnwys

Mae ymatebion yn cael eu gyrru gan ddefnyddwyr, sy'n golygu bod yr offeryn AI yn rhoi unrhyw gynnwys y mae defnyddwyr yn gofyn amdano at ei gilydd. Gall hyn fod yn beryglus gan mai mesurau diogelwch cyfyngedig sydd gan yr ap a gellir cael mynediad hawdd at wybodaeth am bynciau a allai fod yn amhriodol.

### Cyfeillgar, ond nid cyfaill

Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn deall mai adnodd AI yn unig yw ChatGPT – nid person. Er y gall yr adnodd drafod bron bob dim, gan gynnwys cynnig cyngor, ni ddylai defnyddwyr ddibynnu ar ChatGPT fel ffynhonnell cefnogaeth a chyngor.

## Cyngor ymarferol

### Gwirio ffeithiau popeth

Siaradwch â'ch plentyn am sylwi ar gamwybodaeth a gwirio ffeithiau a gynhyrchir gan ChatGPT.

### Siaradwch â'ch plentyn

Siaradwch am y risgiau o ddefnyddio ChatGPT fel ffynhonnell wybodaeth ar bynciau a allai fod yn anodd neu'n niweidiol.

### Siaradwch ag oedolyn dibynadwy

Atgoffwch blant y dylen nhw siarad ag oedolyn neu linell gymorth ddibynadwy bob amser os oes angen cyngor neu gymorth arnyn nhw gyda phroblem, ac nad yw sgwrsfot AI yn ddewis amgen addas.

Am ragor o wybodaeth

Hwb®

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

OGL © Hawlfraint y Goron / Crown copyright 2025 WG51495